| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 29 Tachwedd 2017 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Alan Smith - Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol |
| **Teitl:** | Diweddariad ar y Cynllun Gwella Llywodraethu |

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**
Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun gwella llywodraethu a ddaeth gyda Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2016/17.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**
Bwriad yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth am sut mae'r Cyngor yn gweithredu gwelliannau mewn trefniadau llywodraethu ers cyhoeddi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ym mis Gorffennaf 2017.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**
Gofynnir i'r Pwyllgor adolygu a rhoi sylwadau ar y cynnydd.

**4. Manylion yr adroddiad**
Atodiad 1 yw'r Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethu, sy'n dangos cynnydd da wrth weithredu'r cynllun gweithredu gyda dau gam wedi'u cwblhau cyn yr amserlen a thri ar y trywydd iawn i gwrdd â'r terfyn amser.

Mae Archwilio Mewnol wedi cwblhau ei adolygiad o 'Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych' i adolygu trefniadau llywodraethu'r darparwr gwasanaeth amgen ac yn rhoi Sicrwydd Uchel yn gyffredinol. Mae cam cyntaf yr adolygiad 'Rheoli'r Risg Twyll' yn erbyn cod ymarfer Cipfa wedi'i gwblhau gyda'r ail gam yn mynd rhagddo ac yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth staff a mabwysiadu polisïau a gweithdrefnau perthnasol. Mae'r gwelliannau arfaethedig a nodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ei adroddiad *'Cynllun Arbedion - Cyngor Sir Ddinbych'* yn eu lle, yn benodol: mae polisi codi tâl incwm a chyfradd risg cynilion bellach wedi'i gynnwys yn y broses gyllidebol.

Mae rhai meysydd yn mynd rhagddynt o hyd, i gyd ar y trywydd iawn i gyrraedd eu terfyn amser disgwyliedig ym mis Mawrth 2018. Mae polisi'r cyngor ar gyfer staff sy'n cymryd data personol oddi ar y safle wedi'i ddrafftio ac yn cael ei ymgynghori, ac mae ystod o gamau gweithredu wedi'u cynllunio mewn ymateb i adroddiad SAC *'Llywodraethu da wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol i'r gwasanaeth - Cyngor Sir Ddinbych'*.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**
   Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**
   Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
   Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

10. **Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
    Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**
    Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.